CAIS AM HURIO SAFBIBELL FESUR I'W DEFNYDDIO YN ARDAL DŴR HAFREN DYFRDWY

Cwblhewch bob adran isod. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Aquam Water Services ar **03300 585038** neu e-bostiwch ni ar **hafrendyfrdwy@aquamcorp.co.uk**

Dylid gwneud Gorchmynion Prynu a Thaliadau yn daladwy i Aquam Water Services.

Mae'r defnydd o Safbibellau nad ydynt yn Cydymffurfio ar Rwydwaith Dŵr Hafren Dyfrdwy yn dramgwydd yn groes i adran 174 (3) o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991. Ar ôl cwblhau'r ffurflen gais anfonwch.

Dros e-bost at: hafrendyfrdwy@aquamcorp.co.uk

E-bostiwch i: hafrendyfrdwy@aquamcorp.co.uk

Drwy'r post at: Unit 1, St Michaels Ind Est, St Michaels Close, Widnes, WA8 8TL

Cadarnhewch os gwelwch yn dda, a ydych chi'n (ticiwch):

Ymgeisydd Cyfrif Newydd ☐ Sicrhewch eich bod wedi dychwelyd eich Cais Cyfrif Credyd

Deiliad Cyfrif Cyfredol ☐ Fy Rhif Cyfrif yw_____

Cwsmer Arian Parod ☐ Noder, fel Cwsmer Arian Parod bydd angen Blaendal o £200.00 cyn Dyddiad Hurio eich Safbibell. Caiff y Blaendal hwn ei gymeryd trwy ein system WorldPay, felly bydd angen darparu cyfeiriad e-bost yn yr adran isod. Bydd y Blaendal hwn yn cael ei gymryd trwy ein system WorldPay, felly bydd angen cyfeiriad e-bost yn yr adran isod.

1. YMGEISYDD

Enw'r Cwmni .....

Cyfeiriad .....

.....

..... Côd Post: .....

Cyswllt Llyfr Prynu/Cyfrifon .....

Enw Cyswllt .....

Rhif Ffôn .....

Symudol .....

Cyfeiriad E-bost:

Cyfeiriad E-bost ar gyfer Hyfforddiant Rhwydwaith Tawel

.....

2. GWYBODAETH

Rheswm dros fod angen dŵr .....

.....

Cyfeiriad y Safle .....

.....

..... Côd Post: .....

Enw Cyswllt ar y Safle .....

Rhif Cyswllt: .....

E-bost Cyswllt: .....

Gorchymyn Prynu .....

Dyddiad y mae ei angen ..... Dyddiad Dychwelyd .....

Danfonwch i Gyfeiriad y Safle ☐ Hoffwn gasglu o'ch storfa yn Widnes (WA8 8TL) ☐

Codir ffi am gludiant ar sail unigol yn ddibynnol ar y lleoliad yn rhanbarth Hafren Dyfrdwy.

3. OFFER

Cyfraddau Hurio Safbibell ***(Mae'r holl brisiau isod yn eithrio TAW)***

☐ **22mm Cost Hurio £31.85 yr wythnos**

☐ **22mm Pris Talu am y Flwyddyn o Flaen Llaw £780.00** (£15.00 yr wythnos)

☐ **40mm Cost Hurio £53.95 yr wythnos**

☐ **40mm Pris Talu am y Flwyddyn o Flaen Llaw £980.00** (£18.85 yr wythnos)

Ffi Defnyddio Dŵr - £1.46 fesul metr ciwbig (1,000 litr)

Mae angen y canlynol arnom

Tap ☐ Crib ☐ Addasydd 2" ☐ (Safbibell 22mm yn unig)

Mae angen yr Offer Ychwanegol canlynol arnom

☐ Pibell Ddŵr ..... Metr (Eitem Hurio neu Werthu)

☐ Potel Chwistrellu Hylif Sterileiddio a 10 Tablet (£6.40 + TAW)

Rhaid darparu Darlleniadau'r Mesurydd yn fisol – Cyswllt y Cwsmer ar gyfer darlleniadau:

Enw: ..... Ffôn/E-bost: .....

4. CYTUNDEB

Yr wyf drwy hyn yn gwneud cais i ddefnyddio safbibell fesur yn Ardal Dŵr Hafren Dyfrdwy at y diben a nodwyd uchod ac yr wyf wedi darllen a derbyn yr Amodau a Thelerau defnydd. Dim ond at y diben a nodwyd uchod ac er mwyn ei chysylltu â hydrant Golchi Allan (WO) y gallaf ddefnyddio safbibell a ddarparwyd gan Water Services. Rydw i'n ymrwymo i hysbysu am unrhyw niwed neu golled yn syth a dychwelyd y safbibell ar y dyddiad dychwelyd uchod.

Llofnod: .....

Printiwch Enw: .....

Telerau ac Amodau ar gyfer Defnyddio Safbibellau

1 Ni chaniateir o dan unrhyw amgylchiadau i ddefnyddio Safbibell·Fesur·ar unrhyw hydrant a farciwyd fel 'hydrant tân' (FH). Dim ond y rhai a farciwyd fel Golchi allan (WO) y dylid eu defnyddio i dynnu dŵr

2 Ni fydd y Safbibell Fesur yn fwy na 1.5" (40mm) ar ei thraws. Cytunir maint y Safbibell adeg y Cais Trwyddedu.

3 Rhaid i safbibellau a ddefnyddir i gymryd dŵr o hydrantau golchi allan (WO) fod yn unol â gofynion Hafren Dyfrdwy a dim ond gan Water Services (Aquam) y caent eu darparu. Ystyrir unrhyw Safbibell mewn defnydd nas cafwyd oddi wrth Water Services a chan hynny ddim yn Safbibell a gymeradwywyd fel defnydd heb ganiatâd a chymerir camau pellach fel y nodir ym mharagraff 16 (iii) isod.

4 Bydd unrhyw berson a ganfu i fod wedi ymyrryd â Safbibell Fesur mewn unrhyw ffordd, yn dioddef camau pellach gan gynnwys tynnu'r drwydded yn ei hôl yn syth heb ad-daliad o'r ffi.

5 Darperir pob Safbibell a gofrestrwyd â dyfais atal llifo'n ôl ar ffurf falf wirio ddwbl BS6282.

6 Rhaid cadw Safbibellau ac unrhyw offer cysylltiedig mewn cyflwr glân wedi eu cynnal yn dda a'u diheintio cyn cael eu cysylltu â hydrant golchi allan. Rhaid cynnal pob Safbibell ac offer cysylltiedig er mwyn lleihau'r risg o halogiad, llifo'n ôl a cholli dŵr. Rhaid peidio â defnyddio offer sydd wedi torri neu wedi treulio. Mae'n bosibl bydd rhaid i chi ddangos i Hafren Dyfrdwy eich cynlluniau o sicrhau y diheintir Safbibellau cyn eu defnyddio.

7 Rhaid peidio â defnyddio dŵr a gymerir o hydrant golchi allan ar gyfer yfed neu baratoi bwyd ac ni ddylid ei adael i redeg i wastraffu.

8 Bydd y defnyddiwr yn gyfrifol am y gost o unrhyw atgyweiriad am unrhyw niwed a achosir i'r hydrant golchi allan neu offer cysylltiedig wrth gysylltu, defnyddio neu ddatgysylltu'r Safbibell.

9 Bydd y defnyddiwr yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991 ac unrhyw ofynion yr awdurdod priffyrdd wrth ddefnyddio Safbibell ar hydrant golchi allan yn y stryd.

10 Ni fydd Hafren Dyfrdwy yn derbyn cyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw golled neu niwed a achosir gan eiddo unrhyw berson neu bersonau lle bynnag y'u lleolir trwy ddefnydd neu weithrediad yr hydrant golchi allan neu Safbibell, nac mewn perthynas ag unrhyw anaf a ddioddefir gan unrhyw berson neu bersonau trwy ddefnydd neu weithrediad yr hydrant golchi allan, Safbibell. Mae'r defnyddiwr, drwy lofnodi'r ffurflen "Cais am Safbibell Fesur", yn cytuno i ddigolledu Hafren Dyfrdwy yn erbyn pob achos, hawl, iawndal neu ofynion a all godi o ganlyniad i unrhyw golled, niwed, neu anaf o'r fath.

11 Ceidw Hafren Dyfrdwy ac unrhyw Awdurdod Tân yr hawl i gael gwared ar unrhyw Safbibell neu ased o'r rhwydwaith dŵr ar unrhyw adeg ac at unrhyw ddiben. Ni fydd Hafren Dyfrdwy yn atebol i achosion o iawndal mewn perthynas â cholli defnydd cyflenwi yn dilyn cael gwared â'r offer.

12 Lle defnyddir Safbibell(au) ar yr un safle am fwy na mis, mae rhaid i'r cwsmer wneud cais am gyflenwad wedi ei fesur dros dro neu'n barhaol.

13 Gall unrhyw dor-amod o'r amodau a thelerau hyn arwain at achos yn erbyn deiliad y Cytundeb gwaeth pwy oedd yn gweithredu'r Safbibell ar adeg y tor-amod. Cyfrifoldeb deiliad y Cytundeb yw sicrhau y cydymffurfir â'r amodau a thelerau ar bob adeg. Ni ellir is-rentu Safbibellau Mesur i gwmnïau na chontractwyr eraill. Pe canfu i Safbibell Fesur gael ei his-rhentu i drydydd parti, cymerir camau, lle'n briodol, yn erbyn deiliad y Cytundeb yn unig sydd wedi cytuno a derbyn yr amodau a thelerau hyn.

14 Bydd angen i chi gymryd darlleniadau o'ch mesurydd yn fisol ac adrodd y darlleniad dros y ffôn i Water Services ar 03300 585 038. Gellir cymryd camau pe byddai parti yn methu cydymffurfio â'u goblygiad i wneud hyn.

15 Mae Safbibellau mesur yn cynnwys hidl llinell (ffiltr) sydd rhaid ei chynnal a'i chadw'n lân. Bydd yr huriwr a gweithredwr y Safbibell yn atebol am unrhyw gostau i Water Services o ganlyniad i niwed i'r Safbibell Fesur neu hydrant.

16 Ceidw Hafren Dyfrdwy'r hawl i:

(i) Ddweud wrth y defnyddiwr i beidio â defnyddio unrhyw hydrant golchi allan penodol;

(ii) Terfynu unrhyw ganiatâd neu gytundeb pe bai'r defnyddiwr yn torri unrhyw un o'r amodau a thelerau hyn;

(iii) Cychwyn erlyniad o dan Adran 174(3) o'r Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 mewn perthynas â dŵr a gymerir yn erbyn yr amodau a thelerau hyn, y Rheoliadau Dŵr neu unrhyw orchmynion sychderau a all gael eu gorfodi. Ceidw Hafren Dyfrdwy eu hawliau'n llawn i gymryd camau o'r fath; ac

(iv) Archwilio cerbydau cwmni sy'n defnyddio hydrantau golchi allan Hafren Dyfrdwy i sicrhau yr atebir pob un o'r amodau a thelerau.

Gweithredu Hydrantau

Pan fyddwch yn cysylltu Safbibell

- Glanhewch bwll yr hydrant o unrhyw ysbwriel
- Diheintiwch y Safbibell a'r Hydrant â thoddiad chwistrell glorin sydd wedi ei gymeradwyo;
- Peidiwch â rhoi unrhyw lwyth plygadwy neu o'r ochr i'r Safbibell
- Gweithiwch y werthyd ar hyd braich
- Agorwch a chaewch yr hydrant yn araf ac yn bwyllog bob amser
- Llifolchwch yr hydrant i glirio'r pwynt cysylltu
- Peidiwch â chroesi edefnyn yr allanfa
- Arolygwch y Safbibell â'ch llygaid i gadarnhau ei bod wedi ei ffitio'n gywir
- Peidiwch â sefyll yn syth uwchben yr hydrant
- Os bydd unrhyw hydrant yn methu â gweithredu, rhowch wybod i Water Services yn syth